


# CYNGOR TREF PORTHMADOG



## **Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref a gynhaliwyd drwy gyfrwng Microsoft Teams am 19.00 Medi 14 2021**

**Presennol :-** Cynghorwyr :- Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Aled Griffith, Malcolm Humphreys, Jason Humphreys, Ian Jones, Gwilym Jones, Selwyn Griffiths, Dr Simon Brooks, Nia Jeffreys, Alwyn Gruffydd, Richard Williams  
Marian Roberts (Clerc)

### **92.9.21 Ymddiheuriadau.**

Cynghorwyr :- Linda Roberts, Bethan Rees Jones, Carol Hayes, Stuart Nashir-Hallard, Dr Melfyn Edwards

### **93.9.21 Adroddiad y Cadeirydd.**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod – y cyfarfod llawn rhithiol olaf gobeithio cyn y cynhelir y cyfarfod yn ôl yn Y Ganolfan. Dywedodd y Cadeirydd fel yr oedd Cofid wedi effeithio'r gymuned gyfan o bob oedran er gwaetha'r brechu cyffredinol. Roedd wedi cael effaith ar economi'r ardal oherwydd gorfod cau rhai bwytaï a thafarndai dros dro. Roedd yn gobeithio y gwelir cydbwysedd yn dychwelyd yn nhymor yr Hydref. Roedd yn diolch i'r Gwasanaeth Iechyd a'r Gwasanaethau Brys am eu gwaith called dros gyfnod prysur yr haf. Gwelwyd mwy nag arfer o ymwelwyr i'r ardal dros gyfnod yr haf a bu hyn yn straen ychwanegol ar wasanaethau lleol ac ar drigolion lleol.

Roedd yn croesawu cynigion gan Gynghorwyr i wella'r sefyllfa wrth ymdrin â phroblemau anghymdeithasol megis gor-yrru; parcio ar balmentydd;gyrru'n beryglus ar draeth Morfa Bychan er gwaetha'r ddamwain ddiweddar.

Roedd yn gweld y tymor newydd yn llawn gobaith ac yn gyfle i symud ymlaen gan obeithio cloi'r flwyddyn ar nodyn positif.

### **94.9.21 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-**

#### **➤ Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Gorffennaf 13 2021**

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio

#### **➤ Cyfarfod Gweithgor Datblygu Gorffennaf 20 2021**

Nodwyd y cofnodion yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio

#### **➤ Cyfarfod Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo Gorffennaf 27 2021**

Cafwyd un cywiriad gan y Cyng Nia Jeffreys – yr oedd wedi gadael y cyfarfod am 7.30 ac wedi ymddiheuro am ei habsenoldeb o gyfarfod y Pwyllgor Cyllid wedyn.

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Ian Jones yn eilio

#### **➤ Cyfarfod Gweithgor Datblygu Medi 7 2021**

Nodwyd y cofnodion yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio

### **95.9.21 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.**

#### **Cyng Dr Simon Brooks**

- Ymgynhoriad ar dreth lleol ar gyfer ail gartrefi
- Gohebiaeth rhif 8 Julie James

Y ddau fater yn ymwneud yn uniongyrchol â'i waith.

### **Cyng Llywelyn Rhys –**

➤ Gohebiaeth rhif 7 a 9 Cyfoeth Naturiol Cymru

Ar gontract gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

### **Materion i'w dwyn gerbron :-**

#### **96.9.21 Penderfynu ar gynrychiolaeth ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Eifion Wyn – diweddariad Cyng Llywelyn Rhys**

Cofnodwyd nad oedd Bwrdd Llywodraethol Ysgol Eifion Wyn wedi cyfarfod eto y tymor yma ac nad oedd Cyng Llywelyn Rhys wedi cael cyfle eto i gael sgwrs â'r Pennaeth ynglyn â newid o fod yn gynrychiolydd Cymunedol i fod yn ghyngrychiolydd o'r Cyngor Tref ar y Bwrdd Llywodraethol.

**Penderfynwyd** - gadael y mater ar y bwrdd yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys.

#### **97.9.21 Penderfynu ar gynrychiolaeth ar Bwyllgor y Ganolfan – diweddariad Cyng Linda Wyn Roberts**

Nodwyd fod y Clerc wedi derbyn cadarnhad gan y Cyng Linda Roberts ei bod yn fodlon cynrychioli'r Cyngor Tref ar Bwyllgor y Ganolfan os byddant yn cyfarfod wyneb yn wyneb ac yn rhithiol dim ond os bydd cyfnod clo arall yn deddfu.

#### **98.9.21 Cynnig Cyng Stuart Nashir-Hallard :- Cofnodi fideo / recordiad llais o gyfarfodydd ar gyfer cywirdeb cofnodi cofnodion a thryloywder.**

Yn absenoldeb Cyng Stuart Nashir-Hallard penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd onibai y bydd Cyng Stuart Nashir-Hallard yn absennol eto yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

#### **99.9.21 Cynnig Cyng Aled Griffith - Ysgrifennu at Rhian Wyn Williams i ofyn am ddiweddariad am sefyllfa'r llochesi bws Tremadog**

Gan nad yw'r gwaith wedi ei gwblhau ac wedi ei ddechrau ers fis Rhagfyr yllynedd

**Penderfynwyd** :- ysgrifennu yn ôl y cynnig a holi os oes bwriad i orffen y gwaith yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

#### **100.9.21 Cynnig Cyng Dr Simon Brooks – parhau â thrafodaeth tynhau ar Bolisi Iaith Gwynedd**

Roedd y Cyng Dr Simon Brooks yn dymuno tynnu'r cynnig oddiar y rhaglen gan y bydd trafodaeth ar y mater yn Gohebiaeth 2 ( ymateb Garem Jackson).

#### **101.9.21 Penderfynu ar Gydabyddiaeth ariannol 2021-2022 yn dilyn Is-Bwyllgor Cyllid 27.7.21( Gweler y tabl amgaedig a phwynt 5 Gwybodaeth Gefndirol)**

**Penderfynwyd** :- talu £1,500.00 ( llai £300 Treth Incwm ) fel Lwfans i'r Cadeirydd i'w ddefnydd ei hun yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

#### **102.9.21 Trafod Cynllun Datblygu Drafft yn dilyn Is- Bwyllgor Cyllid 27.7.21( Gweler y tabl amgaedig a phwynt 4 Gwybodaeth Gefndirol)**

**Penderfynwyd** :- derbyn y Cynllun Datblygu Drafft yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Ian Jones yn eilio.

#### **103.9.21 Trafod Cyllideb Drafft yn dilyn Is Bwyllgor Cyllid 27.7.21( Gweler y tabl amgaedig a phwynt 4 Gwybodaeth Gefndirol)**

**Penderfynwyd** :- derbyn y Gyllideb Drafft yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

#### **104.9.21 Penderfynu ar leoliad cyfarfodydd ( Gweler Gohebiaeth 11)**

Cafwyd trafodaeth eto ar y mater yma . Eglurodd y Clerc fod y canllawiau a dderbyniwyd yng Ngohebiaeth 11 gan Lywodraeth Cymru yn dweud :-

*Ystyriwyd agweddau ymarferol y trefniadau'n ofalus ac mae'n bwysig i Gynghorau*

*fod yn glir mai'r gofyniad sylfaenol yw bod aelodau'n gallu clywed ac yn cael eu clywed gan eraill.*

*Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:*

*□ Mae'r holl gyfranogwyr yn yr un lleoliad ffisegol;*

*□ Mae'r holl gyfranogwyr yn yr un lleoliad ffisegol ac eithrio un unigolyn sy'n ymuno o leoliad arall;*

*□ Mae tua'r un nifer o gynghorwyr yn bresennol mewn man ffisegol ag sy'n ymuno o bell;*

*□ Fe'i cynhelir yn gyfan gwbl o bell lle nad oes trefniadau ffisegol wedi'u gwneud.*

*Er y caniateir cyfarfodydd ffisegol o dan Ddeddf 2021, rhaid i gynghorau nodi bod Deddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gyfranogwyr (h.y. aelodau'r cyngor, aelodau o'r cyhoedd a'r wasg) allu ymuno â chyfarfodydd o bell – hyd yn oed os mai cyfarfodydd corfforol yw'r dull a ffefrir. Rhaid i gynghorau gyhoeddi'r trefniadau hyn, er enghraifft, drwy reolau sefydlog. Ni chaniateir i gynghorau fynnu bod pob cyfarfod yn cael ei gynnal yn gwbl gorrfforol.*

### **O ystyried hyn penderfynwyd :-**

- cynnal y cyfarfod nesaf yn ystafell Glaslyn yn y Ganolfan
- fod Cynghorwyr sydd yn methu mynychu oherwydd anabledd neu sy'n dymuno parhau i fynychu'n rhithiol â'r hawl i wneud hynny yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Jason Humphreys yn eilio.

Cyn medru trefnu hyn bydd y Clerc a'r Cadeirydd yn ymweld â'r Ganolfan i sicrhau :-

- bod y mesurau diogelwch i gyd mewn lle
- bod darpariaeth WiFi yn addas i'r pwrpas
- bod y dechnoleg ar gael yn y Ganolfan i gynnal cyfarfod hybrid.

Bydd rhaid i'r Cynghorwyr sicrhau fod ganddynt liniadur neu iPad yn y cyfarfod er mwyn parhau i weithredu'r Polisi Di-bapur.

Roedd y Cyng Jason Humphreys yn dymuno cofnodi ei ddymuniad i gael copi caled o bob dogfennaeth.

Roedd y Cyng Selwyn Griffiths yn dymuno cofnodi ei ddymuniad i gael copi caled o'r Rhaglen yn unig os bydd gofyn iddo gadeirio yn absenoldeb y Cadeirydd.

( Y tri aelod arall sydd wedi gwneud cais ysgrifenedig am ddogfennaeth papur yw Cyng Carol Hayes, Cyng Alwyn Gruffydd a'r Cyng Richards Williams )

### **105.9.21 Cynnig Cyng Ian Jones :- Ysgrifennu at Spar a Factory Shop i gwyno am loriau'n dadlwytho ar y Stryd Fawr.**

Eglurodd y Cyng Ian Jones fel yr oedd loriau'n parcio ar y palmant yn peryglu cerddwyr a modurwyr. Holwyd pam na fedr y loris ddadlwytho yng nghefn y Factory Shop fel yn y gorffennol. Clywyd fel yr oedd y lori sydd yn dadlwytho nwyddau i Spar yn creu trafferthion a pherygl i gerddwyr pan yn gadael y "trolis" ar y palmant. Cwmni A.J.Blakemore sydd yn danfon nwyddau i Spar yn ddyddiol. Oes posib iddynt ddefnyddio lori llai ei maint yn amlach fel y gellid defnyddio cefn y siop i ddadlwytho?

#### **Penderfynwyd :-**

- Ysgrifennu i ofyn i A.J.Blakemore i ddefnyddio lori llai ei maint yn amlach fel y gellid defnyddio cefn y siop i ddadlwytho.
- Ysgrifennu ar y Factory Shop i ofyn i'r lori beidio parcio ar y palmant.
- Ysgrifennu at yr Heddlu i'w hysbysu o'r broblem ac o'r broblem o gwsmeriaid yn parcio ar y Zig-zags y tu allan i'r Creel tra'n aros am eu sglodion.

- Ysgrifennu at Adran Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd i'w hysbysu o'r broblem. yn ôl cynnig Cyng Ian Jones, Cyng Richard Williams yn eilio.

**106.9.21 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Rhaglen Hydref 12 – Hydref 2il 2021, ( Rheolau Sefydlog 8.1 “ o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor”.)**

- Cynnig Cyng Richard Williams :- ail-ddechrau cyfarfodydd efo cynrychiolwyr o'r Heddlu
- Cyng Llywelyn Rhys :- Diweddariad ar sefyllfa cynrychiolaeth Ysgol Eifion Wyn
- Cynnig Cyng Alwyn Gruffydd :- Ymateb fel corff i'r ddogfen Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo a ffurflen ymateb ar-lein erbyn Tachwedd 17 2021 ( wedi ebostio 25.8.21) ( Gohebiaeth 4 14.9.21)
- Llenwi'r bylchau yn nogfen (c) Tabl Cydnabyddiaeth Ariannol a gafodd ei gymeradwyo yn nghyfarfod 14.9.21

**107.9.21 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).**

Gan na dderbyniwyd ymateb yn dilyn gyrru ail lythyr i Steffan Jones am broblem Dropped Kerb (Cyf 123.2.21) **penderfynwyd** ysgrifennu ar Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd, Dafydd Gibbard, i ddatrys y mater yn ôl cynnig Cyng Richard Williams, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

**108.9.21 Gohebiaeth :**

Gadawodd y Cyng Dr Simon Brooks y cyfarfod.

Mae'r Cynghorwyr wedi derbyn copi electronig o'r dogfennau canlynol :-

1. Rheolau Drafft Etholiadau Lleol ( wedi ebostio 17.8.21)
2. Ymgynghoriad Trwyddedu ( wedi ebostio 17.8.21)
3. Canllawiau'r Ombudsman Cefnogi Model Cod Ymddygiad 2016 ( wedi ebostio 17.8.21)
4. Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo a ffurflen ymateb ar-lein erbyn Tachwedd 17 2021 ( wedi ebostio 25.8.21)

Cytunwyd ei bod yn ddyletswydd ar y Cyngor Tref i ymateb fel un i ddogfen rhif 4 o ystyried faint o drafodaethau a gafwyd yn y Cyngor yn ddiweddar am yr union fater yma. Cytunwyd fod cynnig barn fel Cyngor Llawn yn fwy dylanwadol na fel unigolion.

**Penderfynwyd** :- ei roi ar Raglen cyfarfod 12.10.21 a gwneud cais ar holl aelodau'r Pwyllgor i'w ddarllen yn ofalus er mwyn pasio barn arno yn y cyfarfod nesaf yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Richard Williams yn eilio.

**109.9.21 CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI, Arafwch ymateb gan Swyddogion Gwynedd**

Cytunwyd y dylid llongyfarch Cyngor Cymuned Llandygai am fod yn flaengar yn codi'r mater yma i sylw holl Gynghorau Cymuned Gwynedd ac y dylid eu cefnogi yn eu hymgyrch i wella sefyllfa arafwch ymatebion gan swyddogion Gwynedd. Nodwyd fod llythyr wedi cael ei yrru eisoes ar ran y Cyngor Tref am yr union broblem yma.

**Penderfynwyd :-**

- Ysgrifennu at Gyngor Cymuned Llandygai yn eu llongyfarch am fod yn flaengar yn codi'r mater yma i sylw holl Gynghorau Cymuned Gwynedd ac i'w cefnogi yn eu hymgyrch i wella sefyllfa arafwch ymatebion gan swyddogion Gwynedd.
- Ysgrifennu at y Prif Weithredwr, Dafydd Gibbard, yn datgan cefnogaeth i ymgyrch Cyngor Cymuned Llandygai.
- Ysgrifennu at yr Aelod Cabinet dros Faterion Corfforaethol yn datgan cefnogaeth i ymgyrch

Cyngor Cymuned Llandygai,  
yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Aled Griffith yn eilio.

**110.9.21 GAREM JACKSON, Ymateb i lythyr 82.7.21 Canolfannau Iaith**

Cytunwyd fod ymateb Garem Jackson i lythyr 82.7.21 Canolfannau Iaith yn un siomedig oherwydd ei gynilder a bod y mater yn haeddu ymateb llawnach o lawer o ystyried difrifoldeb y sefyllfa. Nodwyd fod sefydlu'r Unedau Iaith wedi dod i fodolaeth yn dilyn gwireddu gweledigaeth unigolion blaengar o'r ardal yma 40 mlynedd yn ôl a thrueni oedd meddwl bod y gwasanaeth yma am gael ei is-raddio.

**Penderfynwyd** :- ysgrifennu'n ôl at Garem Jackson yn gofyn am ymateb llawnach i'r llythyr gwreiddiol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Ian Jones yn eilio.

**111.9.21 RACHEL CARTER, Ymateb i lythyr 85.7.21 Lleoedd lleol ar gyfer nature**

**PENDERFYNWYD** :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i ofyn iddi yrru'r cyflwyniad Powerpoint yn hytrach na threfnu ymweliad ganddi yn ôl cynnig Cyng Dr Simon Brooks, Cyng Jason Humphreys yn eilio.

**112.9.21 DEWI WYN CULLEN - YGC, Adroddiad Llifogydd Morfa Bychan (11 tudalen electronig)**

**PENDERFYNWYD** :- derbyn y wybodaeth

**113.9.21 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL, Llythyr Cydnabyddiaeth Ariannol**

**PENDERFYNWYD** :- derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys. Cyng Richard Williams yn eilio.

**114.9.21 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL, Adolygiad o'r fframwaith taliadau ( 7 tudalen electronig)**

**PENDERFYNWYD** :- derbyn y wybodaeth ond byddai'n talu i'r Cynghorwyr ei ddarllen yn ofalus yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths

**115.9.21 CYFOETH NATURIOL CYMRU, Rhybudd draenio Glaslyn Pencyflog**

Gadawodd Cyng Llywelyn Rhys y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** :- derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths

**116.9.21 JULIE JAMES, Ymateb i lythyr 45.6.21 Argyfwng Tai Haf**

Gadawodd y Cyng Dr Simon Brooks y cyfarfod.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth :-

- Fod problem ail-gartrefi yn broblem fyd-eang ( enwyd Canada, Ardal y Llynoedd, Catalonia, Iwerddon fel engreiffitiau )
- Nid problem pobl ifanc ydi hi bellach ond problem pobl broffesiynol sy'n methu fforddio byw yn lle maent yn gweithio.
- Fod pobl ifanc Porthmadog er enghraifft yn symud i ardal Caenarfon i brynu cartefi yn ymyl eu gweithle.
- Fod angen gwarchod y gymuned er mwyn gwarchod yr iaith mewn ardaloedd gwledig

**Penderfynwyd** :- ysgrifennu at Julie James yn :-

- datgan siom am i'r Cynulliad beidio a gweithredu ar yr argymhellion yn adroddiad Cyng Dr Simon Brooks ar y sefyllfa ac am beidio ymateb i'r argyfwng.
- ei hysbysu fod y broblem yn gwaethygu
- awgrymu fod angen prynu tai Cyngor er mwyn eu gosod

- ei hysbysu nad argyfwng tai ond argyfwng cartrefi ydi hi
- ei hysbysu fod byw eich bywyd yn Gymraeg yn un o 7 prif egwyddorion Deddf Llesiant 2015 ac y dylid adeiladu ar yr egwyddor yma

### **117.9.21 CYFOETH NATURIOL CYMRU, Adroddiad ar ymweliad – llygredd ar strydoedd Porthmadog**

Gadawodd Cyng Llywelyn Rhys y cyfarfod.

Mynegodd y Cyng Richard Williams ei ddiolch i Cyfoeth Naturiol Cymru am anfon un o'u swyddogion i'w gyfarfod i drafod problem llygredd ar strydoedd Porthmadog. Roedd y cyfarfod wedi bod yn un buddiol. Soniodd fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru 3 trwydded i adael dŵr i'r afonydd ac roedd yn awyddus iawn i weld copi o'r 3 trwydded yma er gwybodaeth.

**Penderfynwyd:-** ysgrifennu i wneud cais am gopi o'r 3 trwydded yn ôl cais Cyng Richard Williams, Cyng Malcolm Humphreys yn eilio.

### **118.9.21 RAMBLERS CYMRU, Datganiad i'r Wasg ar wella llwybrau**

**PENDERFYNWYD :-** derbyn y wybodaeth

### **119.9.21 LLYWODRAETH CYMRU, Cyfarfodydd aml-leoliad ( wedi ebostio 4.8.21)**

**PENDERFYNWYD :-** derbyn y wybodaeth

### **120.9.21 DAFYDD EINION JONES, Llythyr cyflwyno Cynllun Ardal Ni 2035**

Cytunwyd y dylid ymateb i'r llythyr er mwyn cael symud ymlaen rhag bod tref Porthmadog yn colli allan ar unrhyw nawdd ariannol ac fel bod arian trigolion Porthmadog yn dod yn ôl i'r ardal. Cytunwyd hefyd y dylid ystyried tref Porthmadog ar ei phen ei hun - ar wahân i Benrhyndeudraeth.

**Penderfynwyd :-** estyn gwahoddiad i Dafydd Einion Jones i fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar 12.10.21 yn ôl cynnig Cyng Dr Simon Brooks, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

### **ARDAL NI 2035, Cyflwyniad Powerpoint**

### **ARDAL NI 2035, Gwybodaeth ac ystadegau cefndirol**

**PENDERFYNWYD :-** derbyn y wybodaeth

### **121.9.21 HYWYN WILLIAMS, Hyrwyddo Cynllun Gwaith Gwynedd**

**PENDERFYNWYD :-** derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i roi caniatad iddynt ymweld â thref Porthmadog.

### **122.9.21 UN LLAIS CYMRU, Ymateb i Ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Fframwaith**

**Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref ( gweler Gohebiaeth 6 uchod )**

**PENDERFYNWYD :-** derbyn y wybodaeth

### **123.9.21 HSBC, Methu cau Cronfa'r Cadeirydd**

Eglurodd y Cadeirydd iddo dderbyn y Mandad ond iddo fynd ar goll. Mae wedi derbyn ail Fandad a bydd yn ei chyflwyno i HSBC fel y gellir cau cyfri Cronfa'r Cadeirydd a throsglwyddo'r arian i'r cyfri Cyfredol.

**PENDERFYNWYD :-** derbyn yr eglurhad.

### **124.9.21 DOGFENNAU YCHWANEGOL**

(a) Cyllideb Drafft

(b) Cynllyn Datblygu Drafft

(c) Tabl Cydnabyddiaeth Ariannol

(ch) Gwybodaeth gefndirol ar gyfer Pwyllgor Cyllid ac Eiddo 27.7.21

**PENDERFYNWYD :-** derbyn y wybodaeth a chymeradwyo'r dogfennau i gyd.

## 125.9.21 Materion Ariannol :

### Derbyniadau :

HSBC	Llog Banc Gorffennaf 2021	£ 00.29
CYNGOR GWYNEDD	Praesept Taliad 2	£ 31,290.71
HSBC	Llog Banc Awst 2021	£ 00.29

### Biliau i'w talu :

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Awst 2021	£ 47.00
2	Marian Roberts	Inc i'r printer	£ 16.99
4	Marian Roberts	Cyflog Clerc Awst 2021	£ 639.17
5	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth incwm cyflog Clerc Awst 2021	£ 160.07
6	Marian Roberts	Ad-daliad am Board Markers i'r gwersi Cymraeg	£ 2.50
7	Cyngor Gwynedd	Cyfraniad Cynnal Toiledau Cyhoeddus 2021-22	£ 8,000.00
8	Marian Roberts	Ad-daliad am 24 x stamp 2il ddosbarth	£ 15.84
9	Marian Roberts	Costau Teithio Awst 2021	£ 5.88
10	Coed y Ddraig	Mainc goffa Glenda Burke	£ 370.00

Mynegwyd siom gan y Cyng Jason Humphreys fod y Cyngor Tref wedi derbyn anfoneb am £8,000.00 fel cyfraniad tuag at gynnal toiledau cyhoeddus Porthmadog a Borth y Gest ar ôl i'r Cyngor benderfynu yn eu cyfarfod mis Mawrth 2021 nad oeddent am dalu cyfraniad tuag at doiledau Porthmadog oherwydd eu bod yn rhai angenrheidiol i weithwyr allweddol yn ystod y Cyfnod Clo a bod Gwynedd wedi egluro'n ysgrifenedig nad oeddynt wedi cau'r toiledau yn ystod y cyfnod clo oherwydd eu bod nhw'n rhan o 8 hwb allweddol y rhwydwaith trafndiaeth cyhoeddus. **Penderfynwyd** :- ysgrifennu yn ôl i ofyn am ail anfoneb am doiledau Borth y Gest yn unig a thalu phob un o'r biliau eraill yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Richard Williams yn eilio.

### Biliau wedi eu talu

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Gorffennaf 2021	£ 47.00
2	Marian Roberts	Cyflog Clerc Gorffennaf 2021	£ 639.17
3	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth incwm cyflog Clerc Gorffennaf 2021	£ 160.07
4	Marian Roberts	Ad-daliad Tanysgrifiad Blwyddyn Microsoft Teams	£ 54.72
5	Marian Roberts	Llungopïo dogfennau yn yr Archifdy 30.7.21	£ 2.70
6	Marian Roberts	Costau Teithio Gorffennaf 21	£ 21.07
7	Comisiynydd Gwybodaeth	Cofrestru GDPR 2021-2022	£ 40.00

( Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

## 126.9.21. Ceisiadau Cynllunio

**(a) Rhif Cais.: C21/0626/44/LL ( wedi ebostio 1.9.21 )**

Lleoliad: Tafarn Glanaber, Tafarn Glanaber Lôn Gwydryn, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9YA  
Bwriad : Estyniad i'r toiledau

**PENDERFYNIAD :- DIM GWRTHWYNEBIAD**

**(b) Rhif Cais .: C21/0694/44/LL ( wedi ebostio 6.9.21)**

Lleoliad : Siloam Cottage Ffordd Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UU  
Bwriad : Cwt bugail pren traddodiadol ar siasi ar gyfer teulu a ffrindiau ac i'w osod i bwrpas air bnb

**PENDERFYNIAD :- GWRTHWYNEBU OHERWYDD Y RHESYMAU CANLYNOL :-**

- Mae'n gosod cynsail i geisiadau eraill tebyg
- Fersiwn arall o dŷ haf ydi o
- Mae o'n rhy agos i dŷ cyfagos
- Dydi o ddim yn gwt bugail traddodiadol Gymreig felly ddim yn adlewyrchiad o dreftadaeth Gymreig
- Mae'r fynedfa mewn lle peryglus lle mae gor-yrru ar yr allt a chyn y troead
- Busnes fyddai o felly bydd mwy o draffig o'r herwydd
- Bydd yn amhosibl i'w fonitro fel busnes

**(c) Rhif Cais .: C21/0692/44/LL ( wedi ebostio 6.9.21)**

Lleoliad : Tafarn Glanaber, Tafarn Glanaber Lôn Gwydryn, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9YA  
Bwriad : Adeilad i'w ddefnyddio fel siop coffi / bar yn gysylltiedig gyda'r dafarn bresennol ynghyd â 2 bwynt gwefru ceir trydan

**PENDERFYNIAD :- DIM GWRTHWYNEBIAD AR YR AMOD NA FYDD YR ENW TAFARN GLANABER YN CAEL EI NEWID I ENW SAESNEG AC Y GOSODIR ARWYDDION CYMRAEG AR Y SAFLE.**

Ysgrifennu at y cwmni i ofyn am gadarnhad na fydd yr enw gwreiddiol yn newid.

**(ch) Rhif Cais .: C21/0867/44/CC ( wedi ebostio 6.9.21)**

Lleoliad : Maes Y Llwyn Tan Y Foel, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UH  
Bwriad: Torri, tocio a gwaith cynnal ar goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed

**PENDERFYNIAD :- DIM GWRTHWYNEBIAD OS BYDD TOCIO FEL BO'R ANGEN YN HYTRACH NA THORRI .**

Roedd y Clerc wedi ebostio'r ceisiadau canlynol gan ofyn i'r Cynghorwyr ymateb yn unigol oherwydd iddynt ei chyrraedd ar ôl cau'r rhaglen ac oherwydd y cyfyngiad amser 21 diwrnod. Teimlwyd y byddai'n well rhoi barn ar faterion cynllunio fel un corff yn hytrach na fel unigolion.

**Penderfynwyd** :- o hyn allan bydd y Clerc yn ebostio pob cais yn y drefn arferol h.y. fel y mae yn eu derbyn fel bod digon o amser gan y Cynghorwyr i'w hastudio cyn mynegi barn arnynt yn y Pwyllgor Llawn. Bydd pob Cais Cynllunio sy'n cyrraedd **wedi i'r Rhaglen gau** yn cael ei ebostio i'r Cynghorwyr er mwyn eu hastudio ac yn cael eu trafod yn y cyfarfod canlynol **er nad ydynt yn swyddogol ar y Rhaglen.**

**(d) Rhif Cais.: C21/0875/44/TC ( wedi ebostio am ymateb unigol 10.9.21 )**

Lleoliad: Plot 59 Tan Y Foel, Borth Y Gest, Gwynedd, LL49 9UH



Bwriad : Tystysgrif Datblygiad Cyfreithiol fod gwaith wedi cychwyn ar ganiatad cynllunio C16/0732/44/LL drwy osod draeniad dŵr aflan ar y safle

**(dd) Rhif Cais /C21/0858/44/DT ( wedi ebostio am ymateb unigol 13.9.21 )**

Lleoliad : Chantilly's, 1 Heol Merswy, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UB

Bwriad : Dymchwel modurdy/adeilad allanol presennol a chodi modurdy/adeilad allanol newydd yn ei le

**(e) Rhif Cais .: C21/0877/44/LL ( wedi ebostio am ymateb unigol 14.9.21 )**

Lleoliad : 21 Cefn London, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NN

Bwriad : Dymchwel modurdy/storfa unllawr presennol a chodi tŷ annedd deulawr (1 ystafell wely)

Nodwyd bod y Cais Cynllunio yma wedi dod gerbron y Pwyllgor eisoes ym mis Mehefin a bod y Cyngor wedi gofyn i roi amod Cymal 106 arno.

**127.9.21 Pla Ash Dieback ar Goed Bryn Coffa**

**Penderfynwyd:-** cymeradwyo penderfyniad Cyfarfod Arbennig Pwyllgor Datblygu ac Eiddo 8.9.21 i dderbyn tendr Ed Fray i ymgymryd â'r gwaith o drin y coed ar Fryn Coffa.

Daeth y cyfarfod i ben am 21.15.

Marian Roberts  
17.9.21